Cyngor Sir Ddinbych (2021)

Adroddiad i'r	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad y cyfarfod	8 Mehefin, 2022
Aelod / Swyddog Arweiniol	Nicola Kneale, Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio Dros Dro
Awdur yr adroddiad	Iolo McGregor, Arweinydd Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad
Teitl	Hunanasesiad Perfformiad y Cyngor 2021 - 2022

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn cyd-fynd â Hunanasesiad Perfformiad y Cyngor ar gyfer 2021 - 2022, ac yn darparu dadansoddiad diwedd blwyddyn o'r cynnydd a'r heriau mewn perthynas â'n hamcanion perfformiad allweddol (hynny ydi, Blaenoriaethau ein Cynllun Corfforaethol) ac ym mhob un o'r saith maes llywodraethu. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn adrodd ar weithgarwch y Cyngor i gefnogi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Er iddo gael ei beilota y llynedd, yr adroddiad hwn yw'r ddogfen ofynnol statudol angenrheidiol gyntaf i gael ei hysgrifennu mewn ymateb i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gynhyrchu Hunanasesiad o'i berfformiad yn erbyn ei swyddogaethau. Mae hefyd yn ymateb i'n dyletswydd mewn perthynas â monitro cydraddoldeb (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Mesur Cymru 2011, sy'n cynnwys y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol), a'n cyfraniadau i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

2.2 Mae adroddiadau rheolaidd yn un o ofynion monitro hanfodol fframwaith rheoli perfformiad y Cyngor. Rydym yn monitro ein perfformiad yn rheolaidd ac yn cyflwyno adroddiadau bob chwarter blwyddyn i gyfarfodydd y Pwyllgor Craffu a'r

Cabinet. Mae ein Crynodeb Gweithredol, a gyflwynwyd ynghyd â'r adroddiad hwn, yn darparu datganiad gwerthusol o'n cynnydd.

2.3 Mae'n rhaid cael adborth ar gynnwys yr adroddiad hwn, sydd ynghlwm fel atodiad I, II ac III, gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, cyn i'r dogfennau terfynol gael eu cymeradwyo gan y Cyngor ym mis Gorffennaf.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Argymhellir bod y pwyllgor yn adolygu ac yn cymeradwyo'r adroddiad drafft, gan ystyried unrhyw newidiadau sydd angen eu gwneud i gasgliadau neu gamau gweithredu y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd.

3.2. Os bydd y pwyllgor yn cynnig argymhellion ar gyfer newid, bydd yn rhaid diwygio'r adroddiad cyn ei gyflwyno i'r Cyngor. Os nad yw'r newid yn cael ei fabwysiadu, rhaid i'r adroddiad terfynol esbonio'r rheswm am hynny.

4. Manylion yr adroddiad

4.1 Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2017-2022 yn gosod y cyfeiriad strategol i'r cyngor a'i flaenoriaethau dros y cyfnod o bum mlynedd. Nodir y manylion ynglŷn â'r hyn y mae'r cyngor yn bwriadu ei wneud bob blwyddyn i helpu i gyflawni'r blaenoriaethau hyn yn y cynlluniau gwasanaeth blynyddol. Mae'r prosiectau yn deillio o Gynlluniau Gwasanaethau a Rhaglenni. Mae cynnydd wedi cael ei adrodd i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad, y Cabinet a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth drwy ein Hadroddiadau Perfformiad Chwarterol.

4.2 Ynghyd â'r adroddiad hwn, cyflwynir tair dogfen.

- Mae Atodiad I yn cyflwyno ein Crynodeb Gweithredol, sy'n ceisio nodi uchafbwyntiau ein perfformiad yn erbyn ein hamcanion (hynny ydi, ein Blaenoriaethau Corfforaethol sef ein Hamcanion Lles a Chydraddoldeb) a'r saith maes llywodraethu (a ragnodwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015). Mae'r paragraffau byr o fewn y ddogfen hon yn

datgan ein perfformiad yn erbyn ein swyddogaethau, ac yn ystyried yr heriau i'r dyfodol a meysydd i'w gwella.

- Atodiad II yw ein hadroddiad chwarterol sy'n rhoi'r Wybodaeth Ddiweddaraf ar Berfformiad, sef ein proses ar gyfer hunanasesu parhaus sy'n ymgorffori tystiolaeth (mewnol ac allanol) a gwaith dadansoddol er mwyn ceisio ateb y cwestiynau 'Pa mor dda ydym yn gwneud', 'Sut ydym ni'n gwybod', a 'Sut allwn ni wneud yn well'? Y darlun diweddaraf o'r cyfnod rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2022 yn unig a geir yn yr adroddiad hwn, ond drwy ddarllen yr adroddiad ar y cyd â'r Datganiad Gweithredol a'r tri Adroddiad Diweddaru blaenorol, ceir Hunanasesiad llawn ar gyfer y cyfnod rhwng 2021 a 2022. Drwy adolygu'r pedwar Adroddiad sy'n darparu'r Wybodaeth Ddiweddaraf ar Berfformiad gyda'i gilydd, mae modd i'r darllenwr weld y gwelliant a nodwyd drwy gydol y flwyddyn i gefnogi perfformiad.

- Mae Adroddiad III yn adroddiad 'untro' sy'n ceisio crynhoi perfformiad ein Cynllun Corfforaethol 2017 - 2022 dros y cyfnod o bum mlynedd, gan ein bod bellach wedi cyrraedd y flwyddyn olaf.

4.3 Ym mhob is-adran blaenoriaeth corfforaethol, mae adrannau Lles a Chydraddoldeb hefyd sy'n sôn am ein cyfraniadau i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; a Deddf Cydraddoldeb 2010 a Mesur Cymru 2011 (sy'n cynnwys y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol). Rydym hefyd yn cynnwys pennod Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar wahân, sy'n crynhoi'r mentrau corfforaethol i gefnogi'r rhaglen hon.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae'r Hunanasesiad Perfformiad Blynyddol yn cynnwys gwerthusiad o lwyddiant y Cyngor i gyflenwi yn erbyn ei flaenoriaethau corfforaethol.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn. Cynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Les ar y Cynllun Corfforaethol ei hun, a chafodd ei gyflwyno i'r Cyngor Sir pan gymeradwywyd y cynllun ym mis Hydref 2017. Bydd prosiectau unigol / rhaglenni gwaith o fewn y Cynllun Corfforaethol yn cael eu hasesu'n unigol wedyn, yn yr un modd ag unrhyw gamau newydd i'r dyfodol.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Mae'r adroddiad wedi'i ddatblygu gan y Tîm Cynllunio Strategol, mewn ymgynghoriad â gwasanaethau eraill y cyngor. Mae adborth eisoes wedi'i geisio ar yr adroddiad gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Cabinet. Ar ôl ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, bydd yr adroddiad yn mynd i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad (9 Mehefin) ac i'r Cyngor Sir i'w gymeradwyo'n derfynol ym mis Gorffennaf.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Nid oes angen datganiad â'r adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Byddai peidio â chyhoeddi'r Hunanasesiad yn debygol o arwain at argymhellion statudol gan Archwilio Cymru, gyda goblygiadau sylweddol i enw da'r Cyngor.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 Rhan 6 yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (pennod 1, adran 89).

11.2 Rhan 2 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (adran 13).

11.3 Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) (adran 16)

11.4 Mae Adrannau 9 ac 13 yng Nghyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu pwerau'r Pwyllgor Craffu mewn perthynas â llywodraethu.